CYFRES A7


# amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Enw



DARLLENWCH
Genesis 29: 1-30




ADNOD ALLWEDDOL
Galatiaid 6: 7

## Gwers 3 Bywyd Jacob – Y Siom

O'r diwedd, roedd Jacob wedi cyrraedd Haran. Yno roedd ei ewythr, Laban, yn byw. Arhosodd wrth ffynnon i ofyn i ryw ddynion oedden nhw'n nabod ei ewythr. Ar yr union amser hwnnw, pwy ddaeth yno gyda'i defaid?

**C Rhowch gylch o gwmpas yr ateb cywir.** 1

**Laban** **Rachel** **Esau**



Roedd Jacob wrth ei fodd ei fod wedi dod o hyd i un o'i berthnasau.

**C Beth wnaeth Jacob i'w helpu hi?** 2

Yn nes ymlaen, clywodd Laban y newyddion bod Jacob wedi cyrraedd.

**C Pa adnod sy'n dweud wrthym bod Laban wedi'i groesawu i'w deulu?** Adnod: ____________ 1

Dechreuodd Jacob weithio dros Laban. Ar ôl mis, penderfynodd Laban dalu cyflog i Jacob am ei waith.

**C Rhowch ✓ neu ✗ i ddangos a yw'r brawddegau hyn y wir ai peidio:-** 4

1. Cafodd Jacob awgrymu faint o gyflog a gâi.
2. Lea oedd y ferch ieuengaf.
3. Roedd Jacob yn awyddus i briodi Rachel.
4. Byddai'n rhaid iddo weithio am chwe blynedd cyn priodi Rachel.

**C Llanwch y bylchau yn y paragraff isod.** (darllenwch adnodau 21-26)

Pan ddaeth yr amser, gofynnodd Jacob i Laban am ____________________.
Daeth yr amser i Laban dwyllo Jacob!
Trefnodd Laban i Jacob briodi ____________________ yn lle ____________________.

(Mae'n fwy na thebyg bod gan y briodferch orchudd dros ei hwyneb ac felly nad oedd Jacob yn sylweddoli tan drannoeth beth oedd wedi digwydd.)



**C Beth ddywedodd Jacob wrth Laban yn y bore?** 3

Roedd Jacob yn dal i garu Rachel yn fawr. Gadawodd Laban iddo gael Rachel yn ail wraig wythnos yn ddiweddarach. 1


**C Beth oedd yn rhaid i Jacob ei wneud er mwyn priodi Rachel?**

Bryd hynny, roedd gan rai dynion fwy nag un wraig, ond doedd hynny ddim yn rhan o gynllun Duw. Ei fwriad ef mai dim ond un wraig fyddai gan ddyn (darllenwch Mathew 19: 5 a 6).

1

Wrth i Jacob ddal ati i weithio'n galed dros ei ewythr, mae'n siwr ei fod yn meddwl yn aml am y rhai yn ei deulu yr oedd wedi'u twyllo slawer dydd.

**C Nodwch eu henwau**





2

Mewn rhyw ffordd ryfedd, roedd bywyd yn ailadrodd ei hunan. Ond y tro hwn, roedd yn wahanol! Jacob, a oedd wedi twyllo pobl eraill o'r blaen, oedd yn cael ei dwyllo yn awr! Mae'r Adnod Allweddol yn dweud wrthym na allwn dwyllo Duw. Er y gall Duw faddau i ni am ein pechod, gall ein drygioni achosi problemau i ni yn nes ymlaen mewn bywyd.

**C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.**

2

**C Llanwch y bylchau.**





3

Mae'r ffermwr yn hau hadau gwenith.
Yn nes ymlaen, mae'n medi cnwd o ____________ .

Roedd Jacob wedi hau 'hadau' twyll a chelwydd.
Yn nes ymlaen, bu'n rhaid i Jacob fedi 'cnwd' o ___________ a ___________.

Wrth i chi dyfu, cofiwch bod bywyd fel 'hau' a medi'. Bydd yr hyn yr ydyn ni'n ei ddweud ac yn ei wneud nawr yn cael effaith ar ein dyfodol. Mae hyn yn arbennig o wir am ein hagwedd at yr Arglwydd Iesu. Os gwnawn ni ymddiried yno, cawn ein achub am byth! Os gwnawn ni ei wrthod, cawn ein colli!

**Ydych chi'n meddwl yn ofalus sut i ymateb iddo?**